## Adnodd 6 – Canllaw i Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, 1990

Mae'r Ddeddf yn gwneud y gweithrediadau canlynol yn anghyfreithlon:

| *Trosedd* | *Enghraifft o weithgaredd anghyfreithlon* |
|---|---|
| **Adran 1 :-**<br><br>**Mynediad heb awdurdod at ddeunydd cyfrifiadurol** | Heb iddo/iddi wybod, gwnaethoch wylio eich ffrind yn rhoi ei gyfrinair/chyfrinair yn ei ffôn. Yna gwnaethoch ei ddefnyddio i ddatgloi ei ffôn a lawrlwytho ei luniau/lluniau. |
| **Adran 2 :-**<br><br>**Mynediad heb awdurdod gyda'r bwriad o gyflawni troseddau pellach neu hwyluso'r gwaith o gomisiynu troseddau pellach** | Heb ei ganiatâd/chaniatâd, gwnaethoch gael mynediad at ffôn clyfar eich ffrind, gan gymryd ei fanylion/manylion banc, fel y gallech drosglwyddo arian o'i gyfrif/chyfrif. |
| **Adran 3 :-**<br><br>**Gweithrediadau heb awdurdod gyda'r bwriad o amharu ar weithrediad cyfrifiadur, neu ymddwyn yn fyrbwyll ynglŷn ag amharu ar weithrediad cyfrifiadur.** | Gwnaethoch ddefnyddio adnodd 'booter' er mwyn achosi ffrind i adael gêm ar-lein. |
| **Adran 3ZA :-**<br><br>**Gweithrediadau heb awdurdod sy'n achosi niwed difrifol neu'n creu risg o niwed difrifol** | Gwnaethoch hacio system gyfrifiadurol un o asiantaethau'r Llywodraeth ac roeddech yn ddi-hid ynglŷn â'r canlyniadau. Cafodd Diogelwch Gwladol ei danseilio. |
| **Adran 3A :-**<br><br>**Gwneud, cyflenwi neu gymryd eitemau i'w defnyddio mewn trosedd CMA arall** | Gwnaethoch lawrlwytho cynnyrch i ddangos maleiswedd ar gyfrifiadur ffrind, fel y gallech ei reoli. Ni chawsoch y cyfle i'w ddefnyddio hyd yn oed! |

Testun llawn y Ddeddf: www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/18

## Canlyniadau bod yn rhan o seiberdroseddu

- Ymweliad a rhybudd gan yr Heddlu neu Swyddogion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Arestiad
- Atafaelu eich cyfrifiadur a chyfyngu ar eich mynediad i'r rhyngrwyd
- Dirwy neu gosb
- Dedfryd sylweddol o garchar

Gallai cofnod troseddol parhaus effeithio ar addysg a rhagolygon gyrfa yn y dyfodol, yn ogystal â theithio dramor.

**Nid yw seiberdroseddu yn drosedd heb ddioddefwyr.**
**#DewisiadauSeiber** www.nationalcrimeagency.gov.uk

 Heddlu Gwent Police © 2018